Un Llais Cymru
One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cyfleoedd Rhanbarthol

### Lleoedd Croeso Cynnes Ceredigion

Mae ar agor i geisiadau hyd at £1000
Ffurflen Gais

### Hybiau Cynnes Conwy

Mae ar agor i geisiadau rhwng £500 a £1500 Ebost: Local.Development@conwy.gov.uk

## Cronfa Fuddsoddi Oergelloedd Cymunedol Hubbub

Gan fod cyfleoedd ariannol newydd ar gael, dyma'r amser perffaith i fwy o gymunedau ymuno â'r Rhwydwaith Oergelloedd Cymunedol a helpu lleihau gwastraff a bwydo pobl ar yr un pryd

## Rayne Foundation Lle Mae Pobl yn Cyfarfod

Drwy'r grantiau i leoliadau cymunedol ledled y DU, mae'r sefydliad yn anelu at godi proffil adfywio dan arweiniad y gymuned ac amlygu atebion newydd i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau.
Bydd y gronfa'n cefnogi lleoliadau sy'n galluogi pobl yn eu cymunedau i fyw bywydau cysylltiedig ac iach. Bydd cyfanswm o £2 filiwn o grantiau ar gael drwy'r rhaglen.

## Cynllun Grantiau Allwedd Band Eang Cymru (ABC)

Cyllid Llywodraeth Cymru i helpu cartrefi a busnesau i gysylltu pan nad yw cyflymderau lawr lwytho 30 Mbps ar gael fel arall. Grantiau hyd at £800 yr eiddo (£550 offer, £250 gosod). Ar gael i eiddo yng Nghymru na chawsant eu cefnogi gan gynlluniau band eang cyhoeddus eraill yn y 48 mis diwethaf.
Mae ceiswyr yn derbyn llythyr cynnig ac mae ganddynt dri mis i gwblhau'r gwaith gosod. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael mwy o wybodaeth:

🔗 Canllawiau Allwedd Band Eang Cymru – Llywodraeth Cymru

## Cronfa Diogelwch Trydanol

Mae'n cynnig grantiau i gefnogi prosiectau sy'n helpu cadw pobl fregus yn ddiogel rhag peryglon trydanol yn y cartref ac yn y gymuned.

✅ Profi, atgyweirio neu newid cynhyrchion trydanol anniogel
✅ Gwneud gwaith gosod trydanol mwy diogel
✅ Cynnal gweithdai i godi ymwybyddiaeth am ddiogelwch trydanol
✅ Defnyddio syniadau blaengar i annog defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy diogel.

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

O 1 Medi 2025 – croesawu ceisiadau am grantiau dan £25,000
O 1 Hydref 2025 – croesawu datganiadau o ddiddordeb ar gyfer grantiau mwy hyd at £300,000
Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, dan nawdd Llywodraeth Cymru, yn darparu grantiau cyfalaf i wella cyfleusterau cymunedol sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio gan lawer o bobl leol. Mae cyllid ar gael ar gyfer: Mae'r rhaglen yn agored i fudiadau cymunedol ac yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymunedol, sy'n rhoi sylw i:
🌱 Gynyddu cyfleoedd
💡 Creu ffyniant i bawb
🤝 Adeiladu cymunedau gwydn lle y mae pobl yn cael eu grymuso ac yn chwarae rhan lawn
Disgwylir i geiswyr weithio mewn partneriaeth ag eraill, all gynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector.
📌 Cewch fwy o fanylion yma: https://www.gov.wales/community-facilities-programme

## Cash4Clubs

Mae Cash4Clubs yn gynllun grantiau bychain ar gyfer clybiau a mudiadau chwaraeon cymunedol i oedolion i roi cyfle iddynt gynnig am grantiau i wella cyfleusterau, prynu offer newydd, ennill cymwysterau hyfforddi, neu fuddsoddi yng ngynaliadwyedd eu clwb.

## Blwyddyn Croeso: Cronfa diogelu ar gyfer y dyfodol i Fusnesau Twristiaeth & Lletygarwch Bach 2025-2026

Mae Croeso Cymru yn lansio ail gylch o grantiau cyfalaf ar gyfer 2025-2026. Gwerth y gronfa yw £1.75 miliwn ac mae'n ceisio helpu busnesau twristiaeth & lletygarwch i fuddsoddi mewn camau i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**

## Cronfa Lleoedd Cynnes Cymunedol

Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu ei chyllid Lleoedd Cynnes ar draws ardaloedd lleol er mwyn cefnogi mentrau cymunedol yn ystod y misoedd oer. Bydd yr arian hwn ar gael yn fuan trwy eich Awdurdod Lleol neu eich Cyngor Gwirfoddol Sirol.